

Fframwaith Cymhwysedd Sgiliau Iaith a fabwysiadwyd gan APCAP

	Lefel Mynediad (A1)	Lefel Sylfaen (A2)	Lefel Ganolradd (B1)	Lefel Uwch (B2)	Lefel Rhugl (C1)
Deall	Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyffredin syml.	Yn gallu deall, pan fydd pobl yn siarad yn araf, frawddegau am sefyllfaoedd pob dydd ee gwybodaeth bersonol syml neu wybodaeth am y teulu, trafod materion syml sy'n ymwneud â gwaith, gan gynnwys beth mae pobl wedi'i wneud neu beth fyddent yn ei wneud.	Yn gallu deall y prif bwyntiau pan fydd pobl yn siarad am faterion pob dydd yn y gweithle a'r tu allan iddo, neu pan fo materion gwaith yn cael eu trafod, ee mewn sgwrs neu mewn cyfarfod grŵp bach.	Yn gallu deall y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd, oni bai bod rhywun yn siarad ag acen gryf neu anghyfarwydd ee mewn cynhadledd neu wrth siarad am faterion technegol neu arbenigol iawn.	Yn deall yn rhwydd bron bopeth y glywir neu a ddywedir.
Siarad	Yn gallu cyflwyno'i hun ac eraill, yn gallu holi ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol ee lle mae rhywun yn byw ac yn gweithio, beth mae nhw'n hoffi ei wneud, trafod manylion personol, amserau a rhifau.	Yn gallu cynnal sgwrs syml am bethau pob dydd, ee pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau at y dyfodol.	Yn gallu cynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd sy'n ymwneud â phethau pob dydd ee diddordebau, teithio, neu bethau sy'n ymwneud â gwaith.	Yn gallu siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bethau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu waith, yn gallu mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth, a siarad am bynciau cyffredinol, ee mewn cyfarfod neu sefyllfa un i un.	Yn gallu siarad am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon ac arwain trafodaethau.